

Grŵp Pontio'r Cenedlaethau, Blaenafon

Mae grŵp sy'n cyfarfod yn fisol yn Big Pit yn dod â'r hen a'r ifanc ynghyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydol. Mae'r grŵp wedi'i greu a'i seilio ar egwyddorion dementia gyfeillgar, ac o bryd i'w gilydd caiff gweithgareddau eu harwain gan gyfrangogwyr a gwirfoddolwyr y grŵp sy'n byw gyda dementia eu hunain.

Cychwynodd y prosiect pan benderfynodd yr Amgueddfa a Chyngor Tref Blaenafon gydweithio i fynd i'r afael â nodau cydfuddiannol yn ymwneud â chydlyniant cymunedol a threchu unigrwydd ac arwahanrwydd, a hynny yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Un o nodau'r ddeddf yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd i atal problemau iechyd.

Cafodd y grŵp ei lansio yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Dementia 2018, ac mae wedi gweld oddeutu 600 o gyfranogwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydol gan gynnwys ffotograffiaeth, barddoni ac amrywiaeth o sesiynau celf a chreu. Mae artistiaid proffesiynol wedi cyflwyno nifer o'r rhain, ond mae aelodau o'r grŵp hefyd wedi cymryd yr awenau ac wedi rhannu eu sgiliau artistig gydag aelodau ifanc ac aelodau hŷn o'r grŵp - oedrannau sy'n amrywio o 2 i 102!

Rhai o'r cyfranogwyr rheolaidd yw preswylwyr o gartref gofal lleol, plant ifanc o leoliadau gofal dydd a phobl ifanc o'r 'Hwb', sef y ddarpariaeth ieuencid leol. Mae'r grŵp Little Voices o Ysgol Treftadaeth Blaenafon yn gweithio gyda'r gymuned leol i sicrhau newid cadarnhaol, ac wedi'u hyfforddi fel cyfeillion dementia fel rhan o'r prosiect ac maent yn helpu i gynllunio a threfnu rhai o'r sesiynau grŵp.

Partneriaid eraill sy'n ymwneud â'r prosiect yw Tai Cymunedol Bron Afon sy'n darparu cefnogaeth ac sy'n sicrhau bod y preswylwyr yn cael eu cyfeirio at y ddarpariaeth ym Mlaenafon, a Neuadd y Gweithwyr, sy'n sicrhau fod lleoedd ar gael ar gyfer rhai o'r sesiynau mwyaf poblogaidd. Mae sawl cyfeillgarwch sy'n pontio'r cenedlaethau wedi dechrau o ganlyniad i'r grŵp, gyda'r ifanc a'r hen yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i sesiynau grŵp.

Mae'r trigolion yn siarad am y digwyddiadau hyn am ddyddiau wedyn.

Rheolwr Cartref Gofal Arthur Jenkins, Blaenafon

Mae rhai o'r bobl ifanc hyn wedi ymddieithrio. O fewn y gymdeithas leol mae nhw'n cael eu hystyried fel niwsans. Maent i gyd wedi bod yn gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ond heddiw, maent wedi bod yn cymryd rhan yn y gweithgareddau o'r dechrau i'r diwedd, gyda phawb wedi mwynhau'n arw. Rydym angen gwneud mwy o hyn.'

Cydgysylltydd Ieuencid, o'r ardal

Mae fy mam newydd fod yn dweud wrthyf am y peth a chefais yr argraff ei bod wedi cael prynhawn gwych ... Roedd hi'n falch iawn gyda'i darluniau o'r Big Pit... Mae hi wedi gwneud mwy o waith arlunio yn y dyddiau diwethaf nag yr ydw i wedi'i gweld hi'n ei wneud ers blynnyddoedd! Mae hi wrth ei bodd yn cwrdd â phobl y mae hi'n eu nabod i gael sgwrs dda hefyd. Diolch ichi i gyd!

Merch i gyfranogwr hŷn yn y grŵp a anfonodd sylwadau drwy negesydd ar noson y weithgaredd. Mae'r ddynes wedi dioddef strôc yn ddiweddar ac mae hynny wedi effeithio ar ei golwg felly mae wedi colli peth o'i hannibyniaeth.